

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Cynnwys

Beth yw cyllideb cymorth neu daliad uniongyrchol?	4
Sut fydda i'n gwybod fy mod yn gymwys am yllideb cymorth neu daliad uniongyrchol?	4
Sut mae fy ngofal a'm cymorth yn cael eu cynllunio?	5
Sut ydw i'n cael fy nghyllideb cymorth neu daliad uniongyrchol?	5
Sut mae fy nghyllideb gymorth yn cael ei chyfrifo?	6
Sut mae'r cyngor yn asesu a oes rhaid i mi dalu tuag at fy ngofal a'm cefnogaeth?	7
Beth alla i ei wneud gyda fy nghyllideb cymorth?	8
Ffyrdd o reoli eich cyllideb gymorth	8
1. Taliadau uniongyrchol	8
2. Cyllideb gymorth sy'n cael ei rheoli gan yr awdurdod lleol	9
3. Cyllideb gymorth sy'n cael ei rheoli gan drydydd parti	10
Cyfuniad o'r holl opsiynau uchod	10
Cyflogi cymhorthydd personol	10
Contract gydag asiantaeth	10
Contract gyda rhywun sy'n hunangyflogedig	11
Gwasanaethau arbenigol ychwanegol ar gael i'w prynu	11
Gwasanaeth cyngori arbenigol:	11
Gwasanaeth cyfrif wedi'i reoli	11
Gwasanaeth Cyflogau	12
Y gwasanaeth datgelu a gwahardd – gwirio a diweddarau	12

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Cyfrifon cerdyn parod	13
Beth yw manteision defnyddio cyfrif parod?	13
Beth yw'r manteision i'r Cyngor?	14
Beth sy'n digwydd os yw fy anghenion yn newid?	14
Ga i gyllideb cymorth neu daliad uniongyrchol ar gyfer offer ac addasiadau i'r tŷ?	15
Canolfan Adnoddau Anabledd	15
Centre of Sign-Sight-Sound	15
Vision Support	15
Delio â phroblemau	16
Beth fydd yn digwydd os byddaf yn anghytuno gyda fy asesiad a'm cynllun gofal a chymorth?	16
Ga i ofyn i rywun siarad ar fy rhan?	16
Beth sy'n digwydd mewn argyfwng?	17
Ffynonellau gwybodaeth eraill:	18
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	18
Gwefan Carers UK	18
Cyngor Ar Bopeth	18
Dewis Cymru	18
Gwefan Cyngor Sir Ddinbych	18
Nodiadau:	19

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Beth yw cyllideb cymorth neu daliad uniongyrchol?

Mae cyllideb cymorth ydy swm o arian a ddefnyddir i brynu gofal a chymorth ar gyfer pobl sy'n gymwys am gynllun gofal a chymorth wedi'i reoli gan y Gwasanaethau Cymdeithasol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Chi sy'n penderfynu sut rydych chi'n dymuno rheoli eich cyllideb gymorth trwy ddewis unrhyw un o'r pedwar opsiwn canlynol:

- **Taliadau uniongyrchol** – mae'r awdurdod lleol yn talu swm o arian i chi neu eich cynrychiolydd ac rydych chi'n dewis sut mae'n cael ei wario i ddarparu gofal a chymorth i chi.
- **Cyllideb gymorth sy'n cael ei rheoli gan yr awdurdod lleol** – rydych chi'n gofyn i'r awdurdod lleol drefnu ac adolygu eich gofal a'ch cymorth ar eich rhan.
- **Cyllideb gymorth sy'n cael ei rheoli gan drydydd parti** – rydych chi neu eich cynrychiolydd yn gofyn i sefydliad sydd wedi'i gymeradwyo reoli eich cyllideb gymorth ar eich rhan.
- **Unrhyw gyfuniad o'r uchod** – rydych chi neu eich cynrychiolydd yn dewis rheoli eich cyllideb gymorth mewn sawl ffordd wahanol, e.e. mae hanner eich cyllideb gymorth yn cael ei rheoli gan yr awdurdod lleol ac rydych chi'n rheoli'r hanner arall trwy daliadau uniongyrchol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi llunio canllaw defnyddiol am daliadau uniongyrchol sydd ar gael ar [wefan Gofal Cymdeithasol Cymru](#).

Chi sy'n dewis faint o ddewis ac o reolaeth rydych chi ei eisiau wrth gynllunio a darparu eich gofal a'ch cymorth chi.

Sut fydda i'n gwybod fy mod yn gymwys am yllideb cymorth neu daliad uniongyrchol?

Darllenwch fwy am yr asesiad a chymhwysedd yn y daflen [Sut ydw i'n cael mynediad at ofal a chymorth yng Ngogledd Cymru?](#) ar y wefan Cyngor Sir ddinbych

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Sut mae fy ngofal a'm cymorth yn cael eu cynllunio?

Ar ôl i chi gael sgwrs â chynrychiolydd yr awdurdod lleol, byddwch yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth. Efallai y bydd gofyn i chi hefyd weithio gyda'ch cynrychiolydd o'r awdurdod lleol i gytuno ar gynllun gofal a chymorth i chi a/neu eich gofalwr.

Mae cynllunio gofal a chymorth yn aml yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau eraill fel y GIG a darparwyr gofal a chymorth lleol a chanlyniad hyn yw cynllun sy'n cael ei alw'n Gynllun Gofal a Chymorth Integredig.

Mae eich cynllun gofal a chymorth, neu eich cynllun gofal a chymorth integredig, yn gytundeb ffurfiol rhyngoch chi, yr awdurdod lleol ac unrhyw sefydliadau eraill sy'n rhan o'ch gofal a'ch cymorth ac mae'n cynnwys:

1. Beth sy'n bwysig i chi a'r canlyniadau rydych chi eisiau eu cyflawni
2. Gwerth tebygol eich cyllideb gymorth
3. Sut yr hoffech chi reoli eich cyllideb gymorth
4. Sut fydd eich gofal a'ch cymorth yn cael ei ddarparu
5. Sut fydd eich gofal a'ch cymorth yn cael ei reoli
6. Sut fydd eich cynllun gofal a chymorth yn cael ei adolygu.

Gallwch gael help i gynllunio cymorth o sawl ffynhonnell, gan ddibynnu ar sut rydych chi wedi dewis rheoli eich cyllideb gymorth. Gallai hyn gynnwys cymorth gan yr awdurdod lleol, eich teulu a'ch ffrindiau neu sefydliadau annibynnol eraill. Gallwn hefyd eich rhoi chi mewn cyswllt â gwasanaethau eirioli os ydych chi eisiau rhywun i'ch cefnogi neu siarad ar eich rhan.

Yn fuan ar ôl i'ch gofal a'ch cymorth ddechrau, byddwn yn gwneud yn siŵr ei fod yn bodloni eich anghenion chi a byddwn yn cytuno ar adolygiadau rheolaidd i sicrhau ein bod ni'n gallu ystyried unrhyw newidiadau i'ch anghenion.

Sut ydw i'n cael fy nghyllideb cymorth neu daliad uniongyrchol?

Darllenwch fwy am yr asesiad a chymhwysedd yn ein taflen [Sut ydw i'n cael mynediad at ofal a chymorth yng Ngogledd Cymru?](#) ar y wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Yn eich sgwrs gyda'r cynrychiolydd o'r awdurdod lleol, rydych yn debygol o drafod:

1. Diwallu eich anghenion gofal personol
2. Cadw'n Ddiogel
3. Bwyta ac yfed
4. Gwneud penderfyniadau a threfnu eich bywyd
5. Bod yn rhan o'ch cymuned
6. Eich rôl fel rhiant neu warcheidwad os yw'n berthnasol
7. Rheoli a chynnal eich cartref
8. Bod â'r cyfleoedd gwaith, hobïau neu ddysgu yr ydych eu heisiau
9. Rheoli eich gweithredoedd
10. Gofalwyr o fewn y teulu, rhwydweithiau cymunedol a chymorth anffurfiol

Sut mae fy nghyllideb gymorth yn cael ei chyfrifo?

Mae eich cyllideb gymorth yn cael ei chyfrifo trwy gyfrif faint mae'n debygol o'i gostio i fodloni eich anghenion cymwys am ofal a chymorth ar ôl ystyried yr holl gefnogaeth arall sydd ar gael i chi.

Gallai eich cyllideb gymorth newid dros amser, hyd yn oes os nad oes newid i'ch anghenion gofal a chymorth – er enghraifft, oherwydd newid i ba mor gymwys ydych chi, newid i bolisi'r llywodraeth neu effeithiau chwyddiant.

Os ydych chi wedi dewis rheoli eich cyllideb gymorth trwy daliadau uniongyrchol neu sefydliad trydydd parti sydd wedi'i gymeradwyo, bydd y swm rydych chi'n ei dderbyn yn cynnwys cyfraniad tuag at y costau ychwanegol fyddwch chi'n eu talu. Er enghraifft, fel un sy'n cyflogi cymhorthydd personol, efallai y byddwch chi'n gorfod talu costau ynghlwm â chyflog, yswiriant a threfniadau at ddigwyddiadau annisgwyl. Os yw eich cynllun i fodloni eich anghenion gofal a chymorth yn costio mwy na'ch cyllideb gymorth, gallwch:

- Wneud cais am adolygiad os nad ydych chi'n meddwl bod yr awdurdod lleol yn talu digon
- Newid sut rydych chi'n bwriadu bodloni eich anghenion gofal a chymorth
- Dewis talu'r gwahaniaeth eich hun.

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Sut mae'r cyngor yn asesu a oes rhaid i mi dalu tuag at fy ngofal a'm cefnogaeth?

Ar ôl cytuno eich bod chi'n gymwys am gyllideb gymorth gan yr awdurdod lleol, byddwn ni'n cynnal asesiad ariannol sy'n edrych ar eich incwm a'ch cynilion, i weld a oes angen i chi wneud cyfraniad ariannol tuag at eich gofal a'ch cymorth.

Mae'r asesiad ariannol yn ystyried eich holl incwm, gan gynnwys budd-daliadau a lwfansau a'ch cynilion. Os byddai'n well gennych chi beidio â chael asesiad ariannol, bydd angen i chi gyfrannu'r uchafswm tuag at eich gofal a'ch cymorth – hyd at £100 yr wythnos ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr yn gywir yn 2020-2021, ond gall gael ei newid gan Lywodraeth Cymru.

Enghreifftiau o Gyfraniadau

Os yw eich anghenion gofal a chymorth yn costio llai na £100 yr wythnos, dim ond cost y gofal a'r cymorth hwnnw fyddwch chi'n ei thalu. Er enghraifft, os yw eich gofal a'ch cymorth yn costio £50 yr wythnos, y cyfraniad mwyaf y byddwch chi'n ei dalu yw £50 yr wythnos (yn dibynnu ar eich asesiad ariannol).

Os yw eich gofal a'ch cymorth chi'n costio £250 yr wythnos, byddwch chi'n talu hyd at £100 bob wythnos (yn dibynnu ar eich asesiad ariannol) a bydd yr awdurdod lleol yn talu'r gweddill.

Os ydych chi'n anghytuno â faint mae gofyn i chi ei gyfrannu tuag at eich gofal a'ch cymorth, gallwch ofyn i'ch asesiad ariannol gael ei adolygu.

Os ydych chi'n teimlo na allwch chi fforddio talu eich cyfraniad, gallwch wneud cais iddo gael ei ddiystyru. Mae pob cais diystyru'n cael eu hystyried gan banel sy'n defnyddio meini prawf llym ac sydd ond yn cytuno i ddiystyru cyfraniadau mewn amgylchiadau eithriadol. Gallwch ddewis peidio â thalu eich cyfraniad tra mae'r cais diystyru'n cael ei ystyried, ond bydd angen i chi dalu unrhyw ddyledion rydych chi'n eu casglu'n ôl i'r awdurdod lleol os nad yw eich cyfraniad yn cael ei ddiystyru.

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Beth alla i ei wneud gyda fy nghyllideb cymorth?

Pan ydych chi neu eich cynrychiolydd yn gwybod faint yw gwerth eich cyllideb gymorth, gallwch:

1. Ddewis sut i reoli eich cyllideb gymorth (gweler y 4 opsiwn uchod)
2. Dewis creu eich cynllun gofal a chymorth eich hun, ond mae'n rhaid iddo gyflawni'r canlyniadau rydych chi a'r awdurdod lleol wedi cytuno arnynt.

Rhaid i'r cymorth a'r gwasanaethau rydych chi'n cytuno arnynt yn eich cynllun gofal a chymorth fod yn gyfreithlon ac wedi'u bwriadu i gyflawni'r canlyniadau sydd yn eich cynllun.

Mae eich cynllun gofal a chymorth yn ffurfio "contract" rhyngoch chi a'r awdurdod lleol a dylai'r ddwy ochr gadw copi cyfredol ohono.

Os ydych chi'n dewis taliadau uniongyrchol, gallwch chi neu eich cynrychiolydd wario'r arian yn hyblyg ac yn y ffyrdd mwyaf effeithiol i fodloni'r canlyniadau sydd wedi'u cytuno yn eich cynllun gofal a chymorth.

Ffyrdd o reoli eich cyllideb gymorth

Gallwch ddewis rhwng pedair ffordd o reoli eich cyllideb gymorth ac mae manteision ac anfanteision i bob un.

1. Taliadau uniongyrchol

- Byddwch yn gwybod faint yw cost flynyddol eich cynllun gofal a chymorth.
- Bydd yr awdurdod lleol yn talu eich cyllideb gymorth i mewn i gyfrif cerdyn, a byddwch chi'n defnyddio hwnnw i dalu am ofal a chymorth rydych chi'n ei ddewis i gyflawni'r canlyniadau rydych chi wedi cytuno arnynt yn eich cynllun gofal a chymorth. Gall hyn gynnwys:
 - a. Prynu gofal a chymorth gan asiantaeth
 - b. Cyflogi cymhorthydd personol
 - c. Prynu gofal a chymorth gan ofalwr hunangyflogedig

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

- d. Prynu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau, cyhyd â'u bod yn cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt yn eich cynllun gofal a chymorth
- e. Unrhyw gyfuniad o'r uchod. Chi sy'n dewis, cyhyd â'ch bod chi'n defnyddio eich taliadau uniongyrchol i gyflawni'r canlyniadau rydych wedi cytuno arnynt yn eich cynllun gofal a chymorth.

Taliadau uniongyrchol sy'n rhoi'r rheolaeth fwyaf i chi dros eich gofal a'ch cymorth, ond fe allent hefyd greu mwy o gyfrifoldebau. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n dewis cyflogi cymhorthydd personol ac ysgwyddo cyfrifoldebau cyflogwr.

Os ydych chi'n defnyddio eich taliadau uniongyrchol i gyflogi cymhorthydd personol, bydd yr awdurdod lleol yn eich rhoi chi mewn cyswllt â nifer o sefydliadau sy'n gallu darparu digon o gyngor a chymorth i chi am bob mater sy'n ymwneud â bod yn gyflogwr, gan gynnwys materion cyflog.

Os ydych chi'n dymuno, gall 'unigolyn addas' arall fel aelod o'r teulu neu ffrind reoli eich taliadau uniongyrchol chi ar eich rhan. Bydd yr awdurdod lleol yn dilyn proses i benodi'r unigolyn hwn, gan sicrhau eu bod nhw'n addas a'u bod yn gweithio er eich lles chi.

Gyda thaliadau uniongyrchol, rydych chi neu eich cynrychiolydd yn gwneud eich trefniadau gofal a chymorth eich hun ac yn contractio eich darparwr gwasanaeth yn uniongyrchol.

2. Cyllideb gymorth sy'n cael ei rheoli gan yr awdurdod lleol

- Byddwch yn gwybod faint yw cost flynyddol eich gofal a'ch cymorth
- Bydd eich cyllideb gymorth yn cael ei rheoli gan yr awdurdod lleol, a fydd yn trefnu eich cymorth yn unol â'r cynllun gofal a chymorth sydd wedi'i gytuno.

Os ydych chi'n dewis yr opsiwn hwn, mae'r awdurdod lleol yn trefnu'r gofal a'r cymorth rydych chi ei angen, felly efallai na chewch chi gymaint o ddewis a rheolaeth ag y byddech yn ei gael â thaliadau uniongyrchol.

Er bod rhai'n meddwl mai hwn yw'r opsiwn symlaf, mae'r awdurdod lleol yn adolygu ei contractau gyda darparwyr gofal a chymorth yn rheolaidd a gallai hyn arwain at newid i'r gwasanaethau rydych chi'n eu derbyn.

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

3. Cyllideb gymorth sy'n cael ei rheoli gan drydydd parti

- Byddwch yn gwybod faint yw cost flynyddol eich cynllun gofal a chymorth.

Byddwch yn dewis trydydd parti o restr o sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo. Bydd y rheini wedyn yn defnyddio eich cyllideb gymorth i drefnu gofal a chymorth ar eich rhan.

Mae'n rhaid i'r gofal a'r cymorth maen nhw'n ei drefnu gyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u cytuno ar eich cyfer yng nghynllun gofal a chymorth yr awdurdod lleol.

Mae'r sefydliad trydydd parti'n rheoli eich gofal a'ch cymorth chi mewn partneriaeth â chi a/neu eich cynrychiolydd neu ofalwr, fel eich bod chi'n cael dewis a rheolaeth, ond heb orfod bod yn gyfrifol am reoli eich cyllideb gymorth o safbwynt ariannol.

Cyfuniad o'r holl opsiynau uchod

- Byddwch yn gwybod faint yw cost flynyddol eich gofal a'ch cymorth.
- Gallwch ddewis nifer o ffyrdd o reoli eich cyllideb gymorth. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n dymuno trefnu rhywfaint o'ch gofal a'ch cymorth eich hun a gofyn bod yr awdurdod lleol a/neu drydydd parti sydd wedi'i gymeradwyo yn trefnu'r gweddill, er enghraifft:
 - a. 50% trwy daliadau uniongyrchol a 50% yn cael ei reoli gan yr awdurdod lleol
 - b. 50% trwy daliadau uniongyrchol, 25% yn cael ei reoli gan yr awdurdod lleol a 25% gan drydydd parti.

Cyflogi cymhorthydd personol

Os ydych chi eisiau cyflogi cymhorthydd personol ond nad ydych chi'n siŵr sut, gallwch ofyn i'r awdurdod lleol eich rhoi chi mewn cyswllt â sefydliad a fydd yn darparu'r holl gymorth a chynghor rydych chi ei angen i fod yn gyflogwr.

Contract gydag asiantaeth

Os nad ydych chi eisiau'r cyfrifoldeb o fod yn gyflogwr, gallwch ddefnyddio eich taliadau uniongyrchol i dalu i asiantaeth ddarparu eich gofal a'ch cymorth.

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Contract gyda rhywun sy'n hunangyflogedig

Gallwch ddefnyddio eich taliadau uniongyrchol i dalu i weithiwr gofal hunangyflogedig ddarparu'r gwasanaethau rydych chi eu hangen. Fel hyn, ni fyddai gennych gyfrifoldebau cyflogwr.

Os ydych chi'n dewis yr opsiwn hwn, gall yr awdurdod lleol eich cynghori ynglŷn â sut mae gwneud hyn yn ddiogel. Gallwch hefyd gael gwybodaeth a chyngor ar [wefan yr Adran Cyllid a Thollau](#).

Gwasanaethau arbenigol ychwanegol ar gael i'w prynu

Gall y Gweithredwyr o'r Un Pwynt Mynediad a staff y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol roi cyngor cyffredinol a chymorth mewn perthynas â Chyllidebau Cymorth. Os oes gennych gyllideb cymorth wedi'i reoli gan drydydd parti, gall eich brocer cymorth roi cyngor a chymorth i chi, ond mae rhai meysydd penodol lle y gallech fod angen cymorth neu gyngor arbenigol, yn enwedig os ydych yn mynd i fod â chyllideb wedi'i hunanreoli a chefnogi staff.

Bydd y Cyngor yn rhoi manylion i chi ynglŷn â phwy all ddarparu'r gwasanaeth hwn a beth y bydd yn ei gostio. Cyfeirir at y mathau o wasanaethau arbenigol isod:

Gwasanaeth cynghori arbenigol:

Mae sefydliadau a all eich cynorthwyo gyda chyngor arbenigol, er enghraifft, am oblygiadau cyfreithiol bod yn gyflogwr, cyfweld, technegau dethol a chefnogaeth i hyfforddi unrhyw staff yr ydych yn eu cyflogi.

Gwasanaeth cyfrif wedi'i reoli

Os ydych eisiau'r uchafswm dewisiadau, ond nad ydych chi na'ch cynrychiolydd yn dymuno rheoli'r arian o ddydd i ddydd, gallwch brynu gwasanaeth cyfrif a reolir gan y Cyngor neu gan ddarparwr gwasanaeth cymorth arall. Bydd y Cyngor yn rhoi manylion i chi ynglŷn â phwy all ddarparu'r gwasanaeth hwn a beth y bydd yn ei gostio.

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Bydd Gwasanaeth Cyfrif wedi'i Reoli yn ymdrin â'r holl waith gweinyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyllid sydd ar gael ar gyfer eich Cyllideb Cymorth, gan gynnwys eich cyfraniadau eich hun ac unrhyw ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael i chi.

Bydd Gwasanaeth Cyfrif Wedi'i Reoli yn:

1. Derbyn yr holl anfonebau, derbynebau a cheisiadau am daliadau
2. Gwneud taliadau awdurdodedig o'r cyfrifon
3. Cadw cofnod llawn o'r gwariant
4. Monitro incwm a gwariant
5. Darparu cyfriflenni

Gwasanaeth Cyflogau

Os ydych yn dewis cyflogi eich gofalwr eich hun (Cymhorthydd Personol) gallwch hefyd ddewis prynu gwasanaeth cyflogau a fydd yn cynhyrchu'r wybodaeth gyflogau angenrheidiol ar gyfer cyfnodau tâl misol, fel;

1. Eich cofrestru chi fel cyflogwr gyda Chyllid a Thollau EM (CThEM)
2. Delio â'r holl ohebiaeth gan CThEM, gan gynnwys Gwybodaeth Amser Real a ffurflenni diwedd blwyddyn
3. Cyfrifo'r holl daliadau i weithwyr yn ôl yr angen
4. Darparu slipiau cyflog
5. Cyfrifo taliadau i Gyllid a Thollau EM
6. Cadw cofnodion gwyliau blynyddol gweithwyr
7. Delio â materion cofrestru awtomatig a darparu cefnogaeth barhaus

Y gwasanaeth datgelu a gwahardd – gwirio a diweddarau

Os ydych yn dewis cyflogi eich gofalwr eich hun (Cymhorthydd Personol) gallwch hefyd ddewis prynu gwasanaeth gan sefydliad cefnogi i gynnal datgeliad GDG uwch ar ymgeiswyr ar eich rhan, neu roi diweddariad ar wiriad GDG presennol. Bydd y Cyngor yn rhoi manylion i chi ynglŷn â phwy all ddarparu'r gwasanaeth hwn a beth y bydd yn ei gostio.

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Cyfrifon cerdyn parod

Mae'r cyfrif cerdyn parod yn cael ei gyflwyno fel ein dull dewisol ni o reoli eich taliadau uniongyrchol chi'n fwy effeithiol. Bydd yn cael ei gynnig i bawb sy'n gymwys i gael taliadau uniongyrchol am y tro cyntaf a'r rhai sydd eisoes yn derbyn taliadau uniongyrchol, fel dewis arall, mwy effeithiol i reoli eu harian.

Yn hytrach na gorfod agor neu gadw cyfrif banc ar wahân, gallwch ddefnyddio'r cyfrif cerdyn parod, sy'n union fel cyfrif cyfredol gan eich banc.

Gallwch ei ddefnyddio i dalu am wasanaethau ar gyfer eich anghenion a'r canlyniadau sydd yn eich cynllun gofal a chymorth.

Byddwch yn derbyn rhif cyfrif, cod didoli a cherdyn credyd a byddwch yn gallu defnyddio'r cyfrif fel unrhyw gyfrif arferol arall.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn darparu'r cyfrif mewn partneriaeth â chwmni ariannol o'r enw Prepaid Financial Services (PFS). Mae Cyngor Sir Ddinbych yn talu'ch taliadau uniongyrchol yn syth i mewn i'r cyfrif. Gallwch dalu eich cyfraniad eich hun i mewn hefyd, ac unrhyw ffynonellau ychwanegol o arian, fel bod eich holl arian chi i dalu am eich gwasanaethau mewn un lle. Gallwch ddefnyddio'r cerdyn i dalu am wasanaethau:

- Wyneb yn wyneb (yn defnyddio sglodyn a'r rhif pin):
- Drwy archeb reolaidd neu ddebyd uniongyrchol;
- Drwy drosglwyddiad banc ar-lein neu dros y ffôn.

Fe allwch chi hefyd weld balans eich cyfrif parod ar-lein neu drwy neges destun ar y ffôn.

Beth yw manteision defnyddio cyfrif parod?

- Does dim angen agor cyfrif banc ar wahân;
- Does dim angen anfon derbynebaw a ffurflenni at Gyngor Sir Ddinbych;
- Mae'n ffordd ddiogel a hawdd o wneud taliadau am eich gofal;
- Gallwch enwebu person y gallwch chi ymddiried ynddo i'ch helpu chi i redeg y cyfrif.

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Beth yw'r manteision i'r Cyngor?

- Gwybodaeth amser real am eich cyfrif
- Gallu gwneud taliadau sydyn yn ôl yr angen
- Mae adroddiadau trafodion yn golygu llai o waith papur i'w wirio a'i gadw.

Beth sy'n digwydd os yw fy anghenion yn newid?

Byddai'n anodd cynllunio ar gyfer pob posibilrwydd – dyma pam mae cyllidebau cymorth a daliadau uniongyrchol wedi'u cynllunio i fod yn hyblyg. Yn gyffredinol, cyn belled bod y canlyniadau a gytunwyd yn dal i gael eu diwallu a bod y costau o fewn eich cyllideb cymorth personol, dylech fedru gwneud newidiadau heb fod angen i'ch awdurdod lleol gytuno arnynt. Er enghraifft, gall eich cynllun ddangos y byddwch yn cael cymorth i fynd am seibiant o 2 awr unwaith yr wythnos. Os ydych chi eisiau dwy sesiwn fyrrach un wythnos, ni ddylai hynny fod yn broblem, cyhyd â bod y sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth hwn i chi'n gallu darparu ar gyfer y newid.

Wrth gwrs, bydd rhai pethau sy'n newid y math neu swm o ofal a chymorth y byddwch ei angen a bydd angen i'r awdurdod lleol gytuno ar hyn. Er enghraifft, o ganlyniad i godwm, gall eich symudedd gael ei effeithio yn sylweddol ac efallai y byddwch angen mwy o wasanaethau i'ch cefnogi yn eich cartref am ychydig.

Bydd adolygiadau yn cael eu trefnu gyda chi neu'ch cynrychiolydd. Mae'n rhaid i ynluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, y dylid ei gytuno â'r unigolyn a / neu'r teulu. Yn achos oedolyn, mae'n rhaid cynnal adolygiadau o fewn 12 mis i'w gilydd.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, a'u partneriaid, sefydlu trefniadau i adolygu neu ailasesu yn fwy prydlon pryd bynnag y mae'n ymddangos nad yw'r cynllun cyfredol yn diwallu anghenion yr unigolyn neu'r teulu.

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Ga i gyllideb cymorth neu daliad uniongyrchol ar gyfer offer ac addasiadau i'r tŷ?

Os yw eich asesiad wedi nodi eich bod angen offer arbenigol neu addasiadau bychan i'ch cartref (dan £1000) gall y Cyngor ddarparu'r rhain am ddim, neu yn rhai amgylchiadau, rhoi cyllideb cymorth neu daliad uniongyrchol i chi dalu amdanynt.

Efallai y byddwch angen cyngor i sicrhau bod yr offer rydych yn ei brynu yn ddiogel, yn briodol ac yn gost effeithiol. Gall Therapyddion Galwedigaethol eich helpu gyda'r penderfyniad hwn. Os ydych yn cael cyllideb cymorth neu taliad uniongyrchol i'r pwrpasau hyn, chi fydd yn berchen ar yr offer neu'r addasiad ac felly chi fydd yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw.

Mae sawl canolfan gyngor ac arddangos ledled Gogledd Cymru yn arddangos ystod eang o offer ac mae staff yno i roi cyngor. Gallwch ymweld ag un os nad ydych yn siŵr am ddarn o offer ac eisiau rhoi cynnig arno.

Canolfan Adnoddau Anabledd

Ysbyty Glan Clwyd, Ffordd Rhuddlan, Y Rhyl, LL18 5UJ

Ffôn (01745) 341967 E-bost: info@thedrc.co.uk [Disability resource centre website](#)

Centre of Sign-Sight-Sound

77 Ffordd Conwy Bae Colwyn Conwy, LL29 7LN

Rhif ffôn: (01492) 530013

E-bost: info@signsightsound.org.uk www.centreofsignsightsound.org.uk/contact-us

Vision Support

38 Stryd Fawr Prestatyn LL19 9BB Ffôn (01745) 472558

E-bost: Rhyl@Visionsupport.org.uk www.information@visionsupport.org.uk

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Delio â phroblemau

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn anghytuno gyda fy asesiad a'm cynllun gofal a chymorth?

Dylai eich asesiad a chynllun gofal a chefnogaeth gofnodi eich barn am eich anghenion a'r canlyniadau yr ydych yn dymuno eu cyflawni. Pan fydd eich cynllun gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu, byddwch yn gallu siarad am sut yr hoffech i'r gofal a chymorth gael ei ddarparu.

Mae'n bosibl y bydd angen adolygu a diwygio eich asesiad a/neu'ch cynllun gofal a chymorth, i wneud yn siŵr bod y cyllid yn ymdrin â'ch holl anghenion. Byddwch yn cael copi o'ch asesiad fel y gallwch wirio bod yr wybodaeth a gofnodwyd yn fanwl gywir.

Os nad ydych chi a'r cynrychiolydd yr awdurdod lleol yn cytuno ar eich asesiad a'ch cynllun cymorth, neu os nad ydych yn hapus gyda'r modd y cawsoch eich asesu, bydd eich pryderon fel arfer yn cael eu pasio i reolwr atebol yr ymarferydd i drafod ymhellach. Bydd adolygiad yn gyfle i sicrhau nad oes unrhyw broblemau heb eu datrys.

Os nad ydych yn fodlon ar yr adeg yma, gallwch ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r Cyngor;

1. Ein e-bostio: ssdcomments@denbighshire.gov.uk
2. Ein ffonio yn rhad ac am ddim ar 0800 032 1099
3. Ysgrifennu atom: Cyswllt Cwsmeriaid, Tŷ Russell, Ffordd Churton, y Rhyl, LL18 3DP
4. Ddweud wrth aelod o staff yn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

Ga i ofyn i rywun siarad ar fy rhan?

Os ydych yn ei chael yn anodd mynegi eich barn a'ch anghenion, gall deulu, ffrindiau neu gymdogion eich helpu i sicrhau bod eich dymuniadau a'ch teimladau yn cael eu clywed, a gall hyn gynnwys siarad ar eich rhan gyda'ch caniatâd.

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Fel arall, gallech deimlo bod unigolyn neu grŵp priodol i gynrychioli eich anghenion, yn enwedig os oes ganddynt brofiadau sy'n gyffredin â chi. Gallant sicrhau bod gennych 'lais'. Enghraifft o hyn yw Age Connect.

Ar yn ail, efallai yr hoffech gynnwys eiriolwr annibynnol a gwirfoddol a fydd yn gweithio gyda chi ar sail tymor byr 1:1 neu fesul problem.

Gall eiriolaeth broffesiynol annibynnol hefyd fod yn opsiwn. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r eiriolwr proffesiynol sicrhau bod eich barn yn cael ei gyfleu yn fanwl gywir dim ots beth yw barn yr eiriolwr neu eraill mewn perthynas â'u lles gorau. Gall y Cyngor ddweud wrthyh sut i gysylltu â sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau eirioli.

Beth sy'n digwydd mewn argyfwng?

Os daw'r Cyngor yn ymwybodol nad yw eich gofal yn diwallu eich anghenion neu eich bod mewn perygl, byddwn yn adolygu eich achos a cheisio datrys y broblem cyn gynted â phosibl.

Ni ddylech gael eich gadael heb gefnogaeth, a bydd eich unigolyn cyswllt mewn argyfwng yn rhan o'ch cynllun gofal a chefnogaeth.

Byddwn yn cytuno gyda chi sut y byddwn yn gwirio eich gofal, yn seiliedig ar eich anghenion parhaus. Mae'n ddefnyddiol trafod problemau posibl a byddwn yn trafod unrhyw gynlluniau wrth gefn gyda chi pan fydd eich Cyllideb Cymorth wedi'i sefydlu.

Dylai eich cynllun gofal a chymorth gynnwys trefniadau ar gyfer ymdrin â phroblemau fel offer yn torri, neu eich Cymhorthydd Personol yn sâl neu ar wyliau.

Efallai y bydd angen addasu eich taliadau Cyllideb Cymorth o bryd i'w gilydd i ystyried unrhyw gostau ychwanegol, ond mae'n rhaid cytuno ar hyn gyda'r Cyngor.

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Ffynonellau gwybodaeth eraill:

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

Un Pwynt Mynediad 0300 456 1000

Argyfyngau tu allan i oriau gwaith 0345 053 3116

Gwefan Carers UK

[Sut ydw i'n cael taliad uniongyrchol?](#)

Cyngor Ar Bopeth

[Defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal](#)

Dewis Cymru

[Y lle am wybodaeth am les yng Nghymru](#)

Gwefan Cyngor Sir Ddinbych

[Sut ydw i'n cael mynediad at ofal a chymorth yng Ngogledd Cymru?](#)

Cyllideb cymorth a thaliadau uniongyrchol

Nodiadau: